18 Tachwedd 2013

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 25 TACHWEDD 2013** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Dafydd Williams*

Dafydd Williams
**Clerc y Dref**

## AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**
   Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. **CWMNI ANRHYDEDDUS O WARCHODWYR DWR**
   I dderbyn Mri. Ifor a David Richards sydd yn dymuno cael benthyg un o Greiriau'r Dref i ddigwyddiad i'w gynnal yn Llundain mis Ionawr / Chwefror nesaf.

4. **CANOLFAN YMWELWYR RHUTHUN**
   I dderbyn Mr Elwyn Edwards gyflenwith ystadegau ar y Ganolfan Uchod am y chwe mis diwethaf i'r aelodau.

5. **ADRODDIAD Y MAER**

6. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

7. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**
   I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2013.

**8. MATERION YN CODI**

**9. PWYLLGOR AMWYNDERAU**
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2013.

**10. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd2013.

**11. IS-BWYLLGOR CYMORTH ARIANNOL**
I osod dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Is-bwyllgor yma (Aelodaeth – Cyngr. Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry, Katy Morgan Williams, Y Maer a'r Dirprwy Faer).

**12. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL**

**(a) CYNGOR AR BOPETH SIR DDINBYCH**
I dderbyn llythyr gan y mudiad uchod yn gofyn am Gefnogaeth Ariannol i Fiwro Rhuthun - mae £2,000.00 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma (copi gwyrdd).

**(b) CLWB ROTARY RHUTHUN**
I dderbyn ac ystyried:
(a) llythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at gost y Fflôt Nadolig a (b) e-bost yn manylu ar gost newidiadau i'r fflôt (copi pinc).

**(c) GOLEUADAU NADOLIG - 30 TACHWEDD**
I dderbyn manylion am Gau Ffyrdd a chais am Gymorth Ariannol tuag at y gost oddi wrth Ymlaen Rhuthun (*cyfraniadau o £300.00 yn 2011 a £180.00 yn 2012*).

**13. CYMDEITHAS CLERCOD CYNGHORAU LLEOL**
I ystyried talu tanysgrifiad blynyddol Clerc y Dref o £147.00.

**14. CRONFA ELUSENNOL Y MAER**
I dderbyn manylion am ddigwyddiad (*ac i ofyn am wirfoddolwyr*) i godi arian tuag at Elusen Y Maer.

**15. AMCANGYFRIFON ARIANNOL 2014 / 2015**
I gadarnhau swm i'w roddi o dan bennawd newydd 'Parth y Cyhoedd' yn dilyn trafodaethau yn y Pwyllgorau diwethaf ac i baratoi ar gyfer cyfrif cyllid y Flwyddyn Ariannol nesaf.

**16 DATGANIAD ARIANNOL**
I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31ain Hydref 2013 (copi gwyrdd).

**17. CYFRIFON I'W TALU**
I gymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

| D.U. | B.T. | Teliffon | * | 60.30 |
|---|---|---|---|---|
| 486 | Sandra Williams | Cyfieithu | * | 90.00 |
| 487 | Cyllid y Wlad | Treth & Yswiriant Gwladol | | 177.47 |
| 488 | Rickx Disco | System sain – Sul Coffa | | 80.00 |
| 489 | Lleng Brydeinig Frenhinol | Cyfraniad | | 50.00 |
| 490 | Dafydd Williams | Sul Coffa - te / coffi ayyb | | 13.55 |
| 491 | Cymdeithas Gymunedol Llanfwrog | Hurio Ystafell – cyfarfod Glasdir | | 29.50 |

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £25.05)

**18. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Cadarnhau Nos Lun, 16 Rhagfyr 2013 fel dyddiad y Cyfarfod Arferol nesaf. Bydd Yr Heddlu yn bresennol.